# SIARTER GYMUNEDOL AR Y CYD RHONDDA CYNON TAF

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**a**

**Chynghorau Tref Pontypridd a Phont-y-clun**

**a**

**Chynghorau Cymuned**

**o**

**Ynys-y-bwl a Choed y Cwm, Rhigos, Hirwaun a Phenderyn, Llanilltud Faerdref, Llantrisant, Llanharan, Llanhari, Tonyrefail, Gilfach-goch,**

**Ffynnon Taf a Nantgarw wedi cytuno i gyhoeddi Siarter sy'n nodi sut y byddwn ni'n ymdrechu i gydweithio er budd y cymunedau lleol.**

DRAFT

**CYFLWYNIAD**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i Gynghorau Tref a Chymuned wedi cytuno i gyhoeddi'r Siarter yma, sy'n nodi sut y byddwn ni'n ymdrechu i gydweithio er budd ein cymunedau lleol, a hynny gan gydnabod ein cyfrifoldebau priodol yn gyrff statudol ymreolaethol a etholwyd yn ddemocrataidd.

Nod y Siarter yw ychwanegu at yr arferion da presennol, yn ogystal â mabwysiadu'r egwyddorion a rennir o ran bod yn agored, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n trigolion a'n cymunedau. Mae'r Siarter yn seiliedig ar bartneriaeth gyfartal ac nid yw'n drefniant o'r brig i lawr. Mae hi'n nodi cyfres o egwyddorion y byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd yn unol â nhw.

Bydd y Siarter yn sail i waith cyfathrebu ac ymgysylltu ystyrlon drwy'r partneriaid priodol, naill ai'n unigol neu drwy drefniadau cyfarfodydd ar y cyd. Bydd hyn yn cynnwys Aelodau a Swyddogion.

Bydd y Siarter yn defnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyflawni canlyniadau er budd y bobl sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â'r rheiny sy'n gweithio yma ac yn ymweld â'r fwrdeistref sirol.

***

DRAFT

## Y SIARTER

Cafodd y Siarter yma'i llunio gyda thri phrif nod cyffredinol, ac mae pob Aelod o'r Siarter yn cydnabod eu bod o fudd i drigolion Rhondda Cynon Taf yn ogystal ag ymwelwyr:

- Atgyfnerthu gwaith partneriaeth a chyfleoedd i gydweithio
- Hyrwyddo democratiaeth leol
- Gwella ein Cymunedau a'n darpariaeth o ran gwasanaethau cyhoeddus.

## EIN HYMRWYMIADAU A RENNIR

Dyma'r ymrwymiadau a rennir a fydd yn helpu i gyflawni ein hamcanion.

### CYDNABYDDIAETH

Byddwn ni'n:

- Cydnabod manteision gwaith partneriaeth tra'n cydnabod a pharchu rolau ein gilydd ar yr un pryd.
- Gweithio gyda'n gilydd ar ffurf partneriaeth gyfartal.
- Cynnwys pob un o'r partneriaid yn ein gwaith, a chydweithio â nhw, er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad a wneir yn gynaliadwy, gan fod yn ystyriol o anghenion presennol ein trigolion.

### CYFATHREBU

Byddwn ni'n:

- Gwrando ar ein gilydd ac yn ymateb i'n gilydd yn well - Bydd argaeledd a hygyrchedd yn rhan greiddiol o'r ffordd rydyn ni'n ymwneud â'n gilydd.

- Cyfathrebu'n agored ac yn dryloyw, gan egluro ein prosesau a'n rhesymeg dros wneud penderfyniadau.

- Rhannu gwybodaeth a chyfathrebu mewn modd gwell fel bod modd rhoi datrysiadau ac ymyriadau cynnar ar waith yn brydlon. Bydd hyn yn ein helpu ni i wneud cynnydd wrth weithio tuag at gyflawni nodau llesiant y Fwrdeistref Sirol.

DRAFT

**YMGYSYLLTU A CHYNNWYS**

Byddwn ni'n:

- Cydnabod pwysigrwydd gwaith ymgysylltu a chynnwys ystyrlon a nodi ymrwymiad a rennir i ymgynghori ar faterion sy'n effeithio ar bawb.
- Ymgysylltu â'n gilydd cyn gynted â phosibl, gan gydnabod y safbwyntiau a'r heriau amrywiol y mae gwahanol randdeiliaid a chymunedau yn eu hwynebu.
- Sicrhau bod prosesau ymgynghori ac ymgysylltu mor hygyrch â phosibl.
- Sicrhau bod y gymuned yn chwarae rhan gryfach yn y prosesau Ymgynghori sy'n cael eu cynnal, fel bod adborth gwerthfawr yn dod i law mewn perthynas ag unrhyw gynigion a ddatblygir sy'n effeithio ar les trigolion y Fwrdeistref Sirol.
- Rhoi camau ar waith sy'n ymateb i ymgynghoriadau ac adborth mewn modd priodol.

**DEMOCRATIAETH/LLYWODRAETH LEOL**

Byddwn ni'n:

- Egluro beth yw rôl Cynghorwyr ar bob lefel o ran y berthynas a'r gwaith o arwain y gymuned, gan helpu i feithrin cymunedau cydlynol ledled y Fwrdeistref Sirol a pharchu mandad democrataidd pob cynghorydd
- Grymuso ein trigolion a'n cymunedau i gymryd rhan mewn democratiaeth leol, gan gynnwys pobl ifainc a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Parhau i flaenoriaethu trigolion a chymunedau ym mhob agwedd ar ein gwaith.
- Hyrwyddo cyfleoedd i gymryd rhan mewn democratiaeth leol
- Defnyddio adnoddau'r Cyngor i hyrwyddo cyfleoedd i drigolion sefyll yn etholiadau'r Cynghorau Cymuned a Thref, a'u hannog i wneud hynny.

**ADNODDAU**

Byddwn ni'n:

- Rhannu gwybodaeth berthnasol a phriodol er mwyn galluogi ein gilydd i roi'r cymorth gorau posibl i'n trigolion a'n cymunedau.
- Sicrhau bod modd manteisio ar adnoddau a chymorth ymarferol, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi, a chyfeirio eraill atyn nhw.
- Nodi cyfleoedd i rannu adnoddau a chymorth yn effeithiol rhwng y cynghorau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i drigolion.

## CYFLAWNI EIN HYMRWYMIADAU

Mae'n bwysig cyflawni gwaith ymgysylltu rheolaidd ac agored er mwyn sicrhau bod ein cydberthnasau gwaith yn parhau i fod yn llwyddiannus ac yn gadarnhaol. Yn hyn o beth, byddwn ni'n defnyddio'r dull canlynol o gynnal cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd:

- **Ymgysylltu â'r Clerc Cymunedol** – Cyfarfodydd cyswllt chwarterol ar lefel Clerc/Swyddog.
- **Cynghorwyr** – Cynhelir cyfarfod mwy ffurfiol i bartneriaid ar lefel Cadeirydd neu Arweinydd y Cyngor Tref/Cymuned ac Uwch Arweinwyr RhCT o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Bydd Aelodau 'deublyg' RhCT (Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol a Chymuned/Tref) hefyd yn cael eu gwahodd i'r cyfarfodydd yma.
- **Cyfathrebu Gwell** – Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT yn llunio e-gylchlythyrau rheolaidd ac yn tynnu sylw at gyfleoedd i gymryd rhan ym mhenderfyniadau allweddol y Cyngor.
- **Cymorth pwrpasol** – Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu Swyddog Cyswllt pwrpasol er mwyn helpu pob sefydliad i gydweithio
- **Rhoi Cyngor ac Arweiniad ar faterion Polisi** – Bydd y Swyddog yma hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â Pholisïau Lleol a Chenedlaethol.
- **Rhannu ein hanghenion o ran Hyfforddi a Datblygu, a chefnogi'r anghenion yma.** Bydd y Cyngor yn gwella gallu'r aelodau i fanteisio ar gyfleoedd datblygu a hyfforddi perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys helpu Clercod i gefnogi eu datblygiad proffesiynol eu hunain, yn ogystal â rhoi cymorth o ran iechyd a lles galwedigaethol.

## RHOI'R SIARTER AR WAITH

Y bwriad yw bod y siarter yma'n parhau i fod yn ddogfen 'fyw', ac mae hi wedi'i llunio mewn modd sy'n caniatáu i bob Cyngor adlewyrchu eu dull gweithredu yn well, yn hytrach na'u gorfodi i ddilyn camau a gweithdrefnau penodol. Bydd hyn yn helpu i annog cydweithio fel bod modd i bob Cyngor gynnig profiadau gwell i drigolion Cyngor Rhondda Cynon Taf ac ymwelwyr.

**MONITRO AC ADOLYGU.**

Bydd y Siarter yn cael ei hadolygu'n llawn bob pum mlynedd yn dilyn etholiadau, neu'n amlach os oes angen gwneud hynny.

Bydd Clercod ac Uwch Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd yn mynd ati i adolygu'r cyflawniad yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u nodi bob blwyddyn.

DRAFT

Mae'r Dogfennau ychwanegol canlynol ar gael yn atodiadau i'r Siarter:

- Disgrifiad swydd y Swyddog Cyswllt
- Enghreifftiau o Arfer Da
- Cylch Gorchwyl y Cyfarfodydd Ymgysylltu
- Cynllun Cyflawni

DRAFT

**Enghreifftiau o Arferion Gorau / Dyheadau ar gyfer y Dyfodol**

Mae'r dogfennau canlynol yn dangos ac yn dathlu'r gwaith cadarnhaol sydd eisoes wedi'i gynnal rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chynghorau Tref a Chymuned. Bydd y ddogfen yn ffurfio ‘sylfaen arferion gwaith da’ y byddwn ni, trwy'r Siarter, yn gweithio i'w hehangu ymhellach, a hynny er mwyn cyflawni'r dyheadau y mae rhai Cynghorau Tref a Chymuned eisoes wedi'u hamlinellu trwy'r Siarter ddiwygiedig.

| **Cyngor Tref Pontypridd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf: Arferion Gorau wrth Weithio mewn Partneriaeth** |
|---|
| Mae Cyngor Tref Pontypridd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi datblygu perthynas waith gynhyrchiol a chydweithredol ar draws ystod o feysydd gwasanaeth. Mae'r ddogfen yma'n amlinellu rhai enghreifftiau o waith ar y cyd ac arferion gorau sydd wedi gwella ansawdd bywyd trigolion, wedi helpu gwaith ymgysylltu â'r gymuned ac wedi cryfhau gwaith ymgysylltu â'r gymuned ym Mhontypridd. Ni fwriedir i hon fod yn rhestr gynhwysfawr o'r gwaith ar y cyd yma dros y blynyddoedd diwethaf.<br><br>1. **Partneriaeth Tref a Diwylliant Pontypridd**<br>Mae'r Bartneriaeth Tref a Diwylliant, sef Pontypridd Creadigol yn flaenorol, yn fforwm strategol allweddol lle mae Cyngor Tref Pontypridd a Chyngor RhCT yn gweithio ar y cyd mewn perthynas ag adfywio a datblygu'r dref yn ddiwylliannol. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys rhanddeiliaid diwylliannol a chymunedol allweddol, gan gynnwys Artis/Yma, Arwen/Muni, Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Chelfyddydau RhCT a Chlwb y Bont. Mae'r Cyngor Tref yn darparu'r gwasanaeth ysgrifenyddiaeth ac mae'r Prif Weithredwr yn cadeirio'r grŵp. Mae'r sefydliadau yma'n gweithio gyda'i gilydd i geisio dull cydlynol tuag at raglennu diwylliannol, achlysuron a datblygiad ledled Pontypridd gyda'r nodau allweddol canlynol:<br><br>1. Gweledigaeth a chynllunio strategol ar y cyd ar gyfer canol tref Pontypridd.<br>2. Cefnogaeth ar y cyd ar gyfer achlysuron mawr a rhaglennu diwylliannol.<br>3. Dull ar y cyd tuag at hyrwyddo treftadaeth a thwristiaeth leol.<br>4. Gwaith cyd-drefnu cryf rhwng y sefydliadau er mwyn sicrhau bod prosiectau a'r effaith ar y gymuned yn cyd-fynd â'i gilydd<br><br>2. **Gwaith ar y cyd i gynnal Achlysur Coffa**<br>Fis Tachwedd bob blwyddyn, mae'r Achlysur Coffa ym Mhontypridd yn cael ei drefnu gan Gyngor RhCT gyda chymorth ariannol, cymorth o ran cysylltiadau cyhoeddus a chymorth hyrwyddo yn cael eu darparu gan Gyngor Tref Pontypridd. Mae'r ddau Gyngor yn gweithio'n agos er mwyn sicrhau llwyddiant yr achlysur dinesig arwyddocaol yma, a'i fod yn cael ei gynnal mewn ffordd barchus. Mae'r Cynghorau yn anelu at sicrhau'r canlynol:<br><br>• Cyfarfodydd cynllunio ac amserlenni cyd-drefnus. |

- Rhannu adnoddau ar y cyd ar gyfer logisteg, diogelwch a chyfathrebu.
- Rhannu'r un negeseuon â'r cyhoedd a gwaith ymgysylltu â'r gymuned ar y cyd.

3. **Cymorth Ariannu Rhaglen yr Haf**

Gweithiodd Cyngor Tref Pontypridd mewn partneriaeth â Charfan Canol Trefi Cyngor RhCT ac Ardal Gwella Busnes Eich Pontypridd i gyflawni rhaglen achlysuron fywiog yn yr haf yn 2023 a 2024. Cafodd yr achlysuron yma eu cynnal yn Stryd y Taf a Stryd y Felin, gan roi hwb i nifer yr ymwelwyr, mwynhad y gymuned a bywiogrwydd economaidd yng nghanol y dref. Roedd y canlynol yn rhannau allweddol o'r berthynas:

1. Cyfathrebu a chytundebau ariannu clir ac amserol.
2. Gwaith agos ar y cyd rhwng rhanddeiliaid er mwyn sicrhau calendr cytbwys o achlysuron.
3. Mecanweithiau adborth cadarnhaol i lywio rhaglennu yn y dyfodol.

4. **Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Torri Gwair**

Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth hanesyddol yn bodoli rhwng Cyngor Tref Pontypridd a Chyngor RhCT ar gyfer cynnal a chadw mannau gwyrdd yn y dref. Er nad oes cytundeb ffurfiol, mae cymorth parhaus gan Garfan RhCT yn sail i'r trefniant yma, sy'n sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau cynnal a chadw o safon yn cyd-fynd â disgwyliadau lleol. Mae:

- Disgwyliadau tryloyw o ran gwasanaeth a threfnu hyblyg.
- Cyfathrebu clir ac agored.
- Ymrwymiad ar y cyd i reoli'r amgylchedd a boddhad y cyhoedd.

**Casgliad**

Mae'r enghreifftiau yma'n dangos sut mae Cyngor Tref Pontypridd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddarparu gwerth cyhoeddus. Mae'r bartneriaeth wedi'i gwreiddio mewn parch, cyfathrebu da a nod a rennir o wella'r dref ar gyfer trigolion, busnesau ac ymwelwyr. Y gobaith yw y bydd gwaith ar y cyd yn y dyfodol yn parhau i gyfrannu at y sylfeini cryf yma, gan sicrhau bod Pontypridd yn parhau i fod yn gymuned ffyniannus y gofalir amdani.

| **Cyngor Cymuned Ynys-y-bwl a Choed-y-cwm** | |
|---|---|
| **Enghreifftiau o Arferion Gorau** | **Dyheadau ar gyfer y Dyfodol / Rhestr Dymuniadau** |
| 1. SWYDDOG AMGYLCHEDDOL<br><br>Mae gan Gyngor Cymuned Ynys-y-bwl a Choed-y-cwm Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gyflogi Swyddog Amgylcheddol ar gyfer wardiau Ynys-y- | 1. Gweithio ar y cyd a chyfathrebu gwell. Mae gweithio ar y cyd yn ***hanfodol*** wrth ddyrannu |

| | |
|---|---|
| bwl a Choed-y-cwm. Mae canolbwynt y gwaith yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r materion canlynol – rheoli gwastraff, megis tipio'n anghyfreithlon yn yr ardal. Rheoli cerbydau e.e. ceir sydd wedi'u gadael a cheir wedi'u parcio'n anghyfreithlon. Baw cŵn. Mae'r gwaith ar y cyd yn fach oherwydd bod y Cyngor Cymuned yn talu'r ffïoedd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ond ychydig iawn o gyfathrebu, os o gwbl, sy'n digwydd gyda Chyngor y Fwrdeistref y tu hwnt i hyn mewn perthynas â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yma. Mae'r swyddog gorfodi yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda'r Cynghorydd Cymuned a Chynghorydd y Fwrdeistref am faterion yn yr ardal, ac yn darparu adroddiad misol ar gyfer cyfarfod y Cyngor, gan dynnu sylw at y materion er mwyn i'r Cyngor gynllunio camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw os bydd angen.<br><br>Mae'r enghraifft yma o waith ar y cyd yn llwyddiannus o ganlyniad i ymroddiad y swyddog gorfodi sy'n gwneud ymdrech i sicrhau bod trefniadau cyfathrebu cadarn ar waith gyda'r Cynghorydd os bydd mater yn codi.<br><br>2. PWLL BUTCHERS<br><br>Ym mhen pellaf Ynys-y-bwl mae ardal warchodedig sydd â phwll, gyda choed a mannau gwyrdd o'i gwmpas. Mae grŵp o wirfoddolwyr ymroddedig yn gofalu am y pwll ac yn ei agor bob blwyddyn yn ystod gwyliau'r haf fel bod gan blant yr ardal fan diogel i chwarae ynddo. Mae hyn yn enwedig o bwysig mewn ardal fel Ynys-y-bwl sydd â sgôr sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer mynegeion amddifadedd cymdeithasol. Mae modd defnyddio'r pwll yn rhad ac am ddim ac mae gan drigolion Ynys-y-bwl a Choed-y-cwm barch mawr tuag ato. Yr her i'r pwyllgor sy'n rheoli'r pwll yw'r costau cynnal a chadw a recriwtio gwirfoddolwyr i reoli'r pwll pan fo ar agor. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn darparu cyllid tuag at gynnal a chadw, yn ogystal â'r Cyngor Cymuned.<br><br>Yn hanesyddol dyma barc pwysig yn yr ardal gan ei fod wedi bod yn bwll ers nifer o flynyddoedd. | arian cyhoeddus, ond y rhan bwysicaf yw ***cyfathrebu***. Os bydd y Siarter newydd yma'n gwella cyfathrebu ar gyfer ***pob*** Cyngor Cymuned, nid y rhai mwy yn unig, bydd hi o werth. |

| | |
|---|---|
| Mae'r prosiect yma'n cael ei reoli gan y grŵp o wirfoddolwyr felly, o ran egwyddor, does dim modd defnyddio'r term gweithio mewn partneriaeth ar gyfer y prosiect yma. Fodd bynnag, byddai dull rheoli mewn ffordd gydgysylltiedig yn gweithio'n dda iawn yn yr achos yma a gallai sicrhau bod y ddarpariaeth bwysig yma i bobl ifainc yn cael ei diogelu ar gyfer y dyfodol.<br><br>3. CANOLFAN Y GYMUNED, YNYS-Y-BWL<br><br>Er bod Canolfan y Gymuned yn Ynys-y-bwl yn brosiect elusennol annibynnol a nad yw'n rhan o Gyngor Cymuned Ynys-y-bwl a Choed-y-cwm, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Cymuned Ynys-y-bwl a Choed-y-cwm yn rhoi cymorth i'r prosiect yma. Mae gwaith ar y cyd wedi sicrhau bod y cyfleuster yma, sy'n darparu achlysuron pwysig ar gyfer trigolion lleol o bob oed, yn parhau i fod ar agor. Mae cyfathrebu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Cymuned Ynys-y-bwl a Choed-y-cwm wedi sicrhau bod arian yn cael ei ddyrannu mewn ffordd gydweithredol fel nad oes gorgyffwrdd wrth ddyrannu cyllid ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol. | |

| **Cyngor Tref Pont-y-clun** | |
|---|---|
| **Enghreifftiau o Arferion Gorau** | **Dyheadau ar gyfer y Dyfodol / Rhestr Dymuniadau** |
| 1. Mae RhCT yn casglu ac yn cael gwared ar ein gwastraff cyfrinachol.<br><br>2. Mae RhCT yn torri'r gwair yn ein parc.<br><br>3. Mae RhCT yn arolygu nifer o'n meysydd chwarae – rydyn ni'n cynnal gwiriad gweledol bob wythnos ac mae RhCT yn gwneud y gweddill. | 1. Mynediad gwell at restr cysylltiadau RhCT (rhestr fyw).<br><br>2. Mynediad gwell at gyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff a Chynghorwyr.<br><br>3. Hyd yn oed os nad ydyn ni'n manteisio ar unrhyw un o'r cyfleoedd, mae'r ffaith bod yr hyfforddiant ar gael yn ein helpu ni i gyflawni ein gofynion cyfreithiol o ran sicrhau bod cynlluniau hyfforddi ar waith. |

| | |
|---|---|
| 4. Mae Cyngor Tref Pont-y-clun a Charfanau Gofal y Strydoedd RhCT yn gweithio'n agos i ddarparu gwasanaethau glanhau e.e.<br>a. mae RhCT yn gwagio nifer o'n biniau baw cŵn a biniau sbwriel (rydyn ni'n talu ac yn gosod/atgyweirio/ailosod);<br>b. Os bydd bin Cyngor RhCT yn torri a does dim bin newydd ar gael, rydyn ni yn aml yn talu i ailosod un newydd a bydd RhCT yn ei gynnal a'i gadw.<br>c. Rydyn ni'n ganolfan casglu sbwriel. Bydd RhCT yn casglu'r sbwriel yn rhan o drefniadau arferol;<br>ch. Os bydd gyda ni achlysur, bydd RhCT yn casglu sbwriel ar ôl yr achlysur yn rhan o drefniant arbennig;<br>5. Mae Cyngor Tref Pont-y-clun yn cynnal a chadw ein llwybrau troed lleol yn rhan o gytundeb gyda charfan Llwybrau Troed RhCT.<br>6. Wedi gweithio gyda Charfan RhCT Gyda'n Gilydd i ddatblygu cynllun os bydd argyfwng ar gyfer yr ardal.<br>7. Gweithio gyda Charfan RhCT Gyda'n Gilydd i ddatblygu Rhwydwaith Cymdogaeth yn yr ardal.<br>8. Mae RhCT yn rhoi cymorth i helpu i gynnal gorymdeithiau Dydd y Cofio ledled y fwrdeistref. | 4. Cyd-drefnu gwell o ran newidiadau yn RhCT a allai effeithio ar ein cyllideb. Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn paratoi cyllidebau erbyn mis Ionawr – felly, yn ystod mis Tach/Rhag mewn gwirionedd. Dydy gwaith paratoi cyllideb RhCT ddim yn cyd-fynd â hyn a gall hyn arwain at broblemau.<br>• E.e. cynlluniodd RhCT i ofyn i Gynghorau Tref/Cymuned helpu i ariannu cymorth ar gyfer Dydd y Cofio. Mae hyn yn iawn ond y cynllun oedd gofyn i ni ym mis Mehefin i ariannu ym mis Tachwedd y flwyddyn honno, a fyddai wedi arwain at ymateb nacaol gan bawb gan fod y gyllideb wedi'i gwario.<br>• Os bydd eisiau help gennym ni neu os byddwch chi'n gofyn i ni dalu costau, bydd angen rhoi gwybod ym mis Medi/Hydref ar gyfer y flwyddyn ganlynol.<br><br>5. Hoffwn i ni gael rhestr o'r offer y mae modd eu rhannu fel nad oes angen llogi/prynu offer. Gallai hyn arbed arian i ni i gyd; byddai'n lleihau gwastraffu adnoddau a helpu o ran cynaliadwyedd. |

| **Cyngor Cymuned Llanharan** | |
|---|---|
| **Enghreifftiau o Arferion Gorau** | **Dyheadau ar gyfer y Dyfodol / Rhestr Dymuniadau** |
| 1. Mae cytundeb cyfnod penodol rhwng RhCT a Chyngor Cymuned Llanharan ar gyfer cynnal a chadw llwybrau troed ar waith ar hyn o bryd.<br><br>2. Pan ddymunodd y Cyngor Cymuned ariannu a gosod cysgodfan fysiau wrth safle bws, aeth RhCT ati i wirio manylion y gysgodfan, cysylltu â pherchennog tir lleol | 1. RhCT i gasglu a chael gwared ar ein gwastraff cyfrinachol.<br><br>2. RhCT i arolygu ein meysydd chwarae – rydyn ni wedi cael cynnig ar lafar ond dydy ymdrechion i wneud i hyn ddigwydd ddim wedi dwyn ffrwyth. Rydyn ni bellach yn |

| | |
|---|---|
| ac ymrwymo i'w phrynu a'i gosod. Bydd bil yn cael ei anfon i'r Cyngor Cymuned.<br><br>3. Bydd prosiect Arddoll Seilwaith Cymunedol yn darparu pont newydd. Mae RhCT wedi ymrwymo ar lafar i arolygu a chynnal a chadw'r bont yn y dyfodol, ar ôl iddi gael ei hadeiladu.<br><br>4. Mae Carfanau Hawliau Tramwy a Phriffyrdd RhCT wedi gweithio ar nifer o brosiectau ar y cyd â'r Cyngor Cymuned i wella hawliau tramwy'n sylweddol neu'u hailagor, gyda'r Cyngor Cymuned yn ariannu'r prosiectau yma'n gyfan gwbl neu'n rhannol.<br><br>5. Mae Carfan Priffyrdd RhCT yn bwynt cyswllt hawdd a chyflym o ran perchnogaeth a statws ardaloedd cyhoeddus.<br><br>6. Dechreuodd y Cyngor Cymuned brosiect i fapio Clymog Japan a mynd i'r afael â fe ar dir cyhoeddus yn ein cymuned. Rhoddwyd cymorth o ran mapio'r ardaloedd yma gan Garfan Rhywogaethau Goresgynnol. | cynllunio talu i hyfforddi ein pobl fewnol. Mae gan RCT barciau yn yr ardal felly mae'n ymddangos bod hyn yn benderfyniad hawdd (a thalu am y gwasanaeth hwnnw, wrth gwrs).<br><br>3. Carfanau Gofal y Strydoedd RhCT i rannu eu llwybrau glanhau fel bod modd i ni sicrhau bod rhai llwybrau nad ydyn nhw wedi'u cynnwys yn cael sylw gennym ni. (Ac er mwyn sicrhau nad ydyn ni'n rhoi sylw i ardaloedd y dylai RhCT fod yn eu gwneud).<br><br>4. I RCT gytuno i wagio rhagor o finiau baw cŵn a biniau sbwriel os bydd Cyngor Cymuned Llanharan yn darparu'r biniau.<br><br>5. O ran achlysuron – RhCT i gasglu sbwriel ar ôl achlysuron yn rhan o drefniant arbennig.<br><br>6. Eisiau dosbarthu bagiau ailgylchu i'r gymuned ar ran RhCT yn ein swyddfa.<br><br>7. Mynediad gwell at restr cysylltiadau RhCT (rhestr fyw).<br><br>8. Mynediad gwell at gyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff a Chynghorwyr – mae llawer o gyrsiau hyfforddi y dylai ein staff fod yn eu gwneud, hyfforddiant codi a chario, syndrom dirgryndod llaw-braich a hyfforddiant diogelwch arall. |

| | |
|---|---|
| | 9. Mynediad at borth RhCT (Tebyg i'r hyn sydd ar gael i Aelodau Etholedig). |

| **Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn** | |
|---|---|
| **Arferion Gorau** | **Dyheadau ar gyfer y Dyfodol / Rhestr Dymuniadau** |
| 1. Perthynas waith dda gyda swyddogion CBSRhCT mewn perthynas â goleuadau Nadolig, gosod meinciau, arwyddion neu blannu coed.<br><br>2. Ymateb da i ymholiadau trwy adran y Parciau, yn ogystal â gwaith ar y cyd i osod cysgodfannau bysiau lle bo modd. | 1. Ymateb gwell i'n negeseuon e-bost wedi'u hanfon trwy gyfeiriad e-bost Gwasanaethau i Gwsmeriaid gan nad ydyn ni'n cael ymateb yn aml.<br><br>2. Mae manylion unrhyw grantiau sydd ar gael i ni yn cael eu rhannu â'r Cynghorau Tref a Chymuned.<br><br>3. Mynediad at gymorth TG. |

| **Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref** | |
|---|---|
| **Arferion Gorau** | **Dyheadau ar gyfer y Dyfodol / Rhestr Dymuniadau** |
| 1. Mae Adran y Gyflogres RhCT yn cynnal ein gwasanaeth cyflogres ar hyn o bryd, a hynny am ffi flynyddol. Mae'r gwasanaeth yma wedi bod yn werthfawr.<br><br>2. Mae Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref yn rhentu dau faes chwarae ar brydles gan RCT. Mae'r meysydd chwarae yma'n cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel gan y Cyngor Cymuned, a hynny yn unol â chytundeb a fydd yn dod i ben yn 2034.<br><br>3. Goleuadau stryd – mae Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref wrthi'n trosglwyddo nifer o oleuadau stryd, y mae'n eu cynnal a'u cadw ar hyn o bryd, i RCT. Mae drafft o'r cytundeb wrthi'n cael ei lunio. | 1. Mynediad gwell at restr cysylltiadau RhCT, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.<br><br>2. Mynediad at gyfleoedd hyfforddi ar gyfer Aelodau a staff.<br><br>3. Gweithio'n agosach gydag Adran Parciau a Meysydd Chwarae RhCT i ddatblygu cynllun mwy cynhwysol.<br><br>4. Gwaith cyd-drefnu gwell gan y ddwy ochr mewn perthynas ag achlysuron.<br><br>5. Datblygu rhaglen rhwydwaith cymdogaeth.<br><br>6. Byddai Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref yn hapus i drafod gweithio gyda RhCT ar fentau ar y cyd i helpu'r gymuned. |

| | |
|---|---|
| 4. Mae Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref wedi gweithio gyda RhCT wrth ddatblygu ein cynllun ailblannu coed yn yr ardal.<br><br>5. Rydyn ni'n ganolfan dosbarthu bagiau ailgylchu ac ati. | |

Enghreifftiau penodol eraill o arferion da rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chynghorau Tref a Chymuned.

**<u>Cefnogi a galluogi Cynghorau Cymuned i safonau uchel mewn swydd gyhoeddus</u>**

Mae rôl Cynghorydd ar draws pob haen Llywodraeth Leol yn rhan hanfodol o system ddemocratiaeth ein gwlad. Mae'n bwysig bod modd dwyn Cynghorwyr i gyfrif a'u bod nhw'n mabwysiadu ymddygiad a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r rôl. Mae ymddygiad Aelodau fel Cynghorwyr unigol yn effeithio ar enw da pob Cynghorydd felly mae'n bwysig bod pob Cynghorydd yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Trwy'r arferion gwaith da sydd eisoes ar waith, mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant ac yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi pellach i Gynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad. Mae'r astudiaeth achos yma'n dangos sut y cafodd prif egwyddorion y Siarter eu rhoi ar waith a sut yr arweiniodd hyn at astudiaeth achos gadarnhaol, gan ddangos gwaith partneriaeth cadarnhaol a chryfach a gwella democratiaeth leol.

**Cydnabyddiaeth** – Er bod modd gofyn i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned am hyfforddiant ac arweiniad, gall Swyddog Monitro'r Cyngor fod mewn sefyllfa well i ddarparu hyfforddiant o'r fath i Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol, Cynghorwyr Cymuned a Chynghorwyr Tref.

**Cyfathrebu** – Hyrwyddo 'polisi drws agored' Swyddog Monitro'r Cyngor.

**Ymgysylltu** – Bydd Swyddog Monitro'r Cyngor, trwy'r Clercod perthnasol, yn ceisio ymgymryd â hyfforddiant Cod Ymddygiad ar ôl etholiad. Mae modd gwneud hyfforddiant o'r fath trwy Un Llais Cymru.

**Llywodraethu** – Mae gan Swyddog Monitro'r Cyngor gyfrifoldeb statudol am roi'r Cod Ymddygiad ar waith. Anogir Cynghorwyr Tref a Chymuned i geisio cyngor gan eu Clerc, a allai gyfeirio materion at y Swyddog Monitro. Fodd bynnag, caiff Aelodau geisio cyngor yn uniongyrchol gan y Swyddog Monitro.

**Gweithio mewn partneriaeth** – Trwy waith partneriaeth cadarnhaol, darparu'r cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant gwell a dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad, gan ddarparu gwell gwerth am arian.

**Cynnal Achlysuron Dinesig ar y Cyd**

Mae achlysuron cymunedol yn chwarae rôl ganolog yn y gymuned, megis dod â phobl at ei gilydd ar gyfer achos neu reswm cadarnhaol, dathlu traddodiadau a gwella ysbryd cymunedol. Trwy'r arferion gwaith da sydd eisoes ar waith, mae'r Cyngor wedi cefnogi ystod o achlysuron cymunedol gyda Chynghorau Tref a Chymuned ledled y Fwrdeistref Sirol – Gorymdaith Goffa Pontypridd

**Cydnabyddiaeth** – Er bod Cynghorau Tref a Chymuned yn y lle gorau i ddarparu achlysur lleol yng nghanol y gymuned, mae angen cymorth ymarferol a chyllid gan y Cyngor yn aml.

**Cyfathrebu** – Cyfathrebu agored ac uniongyrchol, gan sicrhau bod pob sefydliad yn effro i'r rôl y mae pob un ohonyn nhw'n ei chwarae er mwyn i'r achlysur fod yn llwyddiant a sicrhau bod pob partner yn rhannu'r un negeseuon â'r cyhoedd.

**Ymgysylltu** – Mae ymgysylltu cynnar rhwng y Cyngor a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn bwysig er mwyn sicrhau digon o amser ar gyfer cynnal yr achlysur ac ar gyfer cwblhau'r holl gamau gweithredu angenrheidiol.

**Gweithio mewn partneriaeth** – Trwy waith partneriaeth cadarnhaol, darparu'r cyfleoedd ar gyfer achlysuron cymunedol llwyddiannus, dod â phobl at ei gilydd, annog cysylltiadau a chreu ymdeimlad o berthyn ar gyfer trigolion y Fwrdeistref Sirol.

**Cymorth Gweinyddu**

Mae rôl Clerc unrhyw Gyngor Tref neu Gyngor Cymuned yn hanfodol i'r Cyngor ac iechyd a lles y gymuned leol. Bydd Clerc yn cyflawni nifer o ddyletswyddau er mwyn sicrhau bod y Cyngor Tref / Cyngor Cymuned yn rhedeg yn ddi-dor ac yn broffesiynol. Mae dyletswyddau o'r fath yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol) – sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei fusnes yn gyfreithlon; gweinyddu holl waith papur y Cyngor; sicrhau bod papurau cyfarfodydd yn cael eu paratoi'n briodol a bod y cyhoedd yn gwybod am amseroedd cyfarfodydd a rhoi penderfyniadau'r Cyngor ar waith.

**Cydnabyddiaeth** – Y rôl bwysig y mae Clerc yn ei chwarae wrth redeg Cyngor Tref / Cyngor Cymuned yn ddi-dor ac yn broffesiynol a'r anawsterau sydd i'w cael pan fo rôl Clerc Cyngor Cymuned / Cyngor Tref yn wag am gyfnod o amser.

**Cyfathrebu** – Mae Swyddog Cyswllt y Prif Gyngor ar gael i ddarparu unrhyw gymorth sydd ei angen i Gynghorau Tref a Chymuned a'u Clercod trwy ohebiaeth a chyfarfodydd.

**Ymgysylltu** – Ar wahân i gymorth cyffredinol i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned, mae Swyddog Cyswllt y Prif Gyngor wedi rhoi cymorth gweinyddu i Gyngor Tref / Cyngor Cymuned yn ystod cyfnod estynedig o absenoldeb Clerc. Rhoddodd y Swyddog Cyswllt gymorth gweinyddu, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd, er mwyn i'r Cyngor Tref / Cyngor Cymuned barhau. Cafodd y cymorth yma ei ehangu i gynnwys cymorth gweinyddu ariannol. Ar ôl i Glerc ddechrau yn y rôl, cafodd y dyletswyddau eu trosglwyddo'n raddol a chafodd hyfforddiant ei ddarparu, er mwyn sicrhau llwyddiant y Clerc newydd a chyfnod hir yn y rôl.

**Gweithio mewn Partneriaeth** – Trwy waith partneriaeth cadarnhaol, darparu cymorth i Gyngor Tref / Cymuned, er mwyn iddo gyflawni'i ddyletswyddau a swyddogaethau pan fo rôl hanfodol yn wag. Helpu gyda'r broses recriwtio angenrheidiol, rhoi hyfforddiant a chyfle i gysgodi swydd, yn ogystal â chymorth a chyngor parhaus er mwyn i'r Clerc newydd deimlo'n gyfforddus yn y rôl.

**<u>Cyflawni'r Protocol Datrysiadau Lleol ar y Cyd</u>**

Er ei bod hi'n bwysig bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cymryd cyfrifoldeb am brosesau datrysiadau lleol cadarn a sicrhau eu bod nhw ar waith ar gyfer delio â chwynion gan Aelodau am Aelodau, mae achosion wedi bod lle mae'r berthynas rhwng rhai o Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned wedi'i chwalu'n sylweddol. Yn aml byddai sylwadau yn ystod trafodaethau ac y tu allan i gyfarfodydd yn tynnu sylw at wahaniaethau sydd y tu hwnt i herio a chraffu cadarn, sydd bob amser yn cael eu hannog, ac yn arwain at ymosodiadau personol a bwlio, aflonyddu neu erlid mewn rhai achosion. Mae'r ymddygiad yma'n effeithio ar weithrediadau dyddiol y Cyngor, gan gynnwys gallu'r Clerc i gyflawni'i rôl yn effeithiol, a gallu'r Cyngor i weithredu er lles gorau ei drigolion. Mae gan senarios o'r fath y potensial i effeithio'n sylweddol ar les swyddogion sydd wedi'u cyflogi gan y Cyngor, ac Aelodau, a all arwain at ymddiswyddiadau a risgiau i lywodraethu effeithiol y Cyngor.

**Cydnabyddiaeth -** Mae gan Gynghorau Tref a Chymuned broses datrysiadau lleol gadarn ar waith ond, lle bydd angen, gall Swyddog Monitro'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau helpu i ddod o hyd i ddatrysiad sy'n dderbyniol i bawb.

**Cyfathrebu -** Er mwyn datrys materion tebyg sydd wedi digwydd yn flaenorol mewn rhai Cynghorau, o ganlyniad i berthynas wedi'i chwalu rhwng Aelodau ac weithiau Swyddogion, mae'r Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi cwrdd a siarad ag Aelodau, a hynny cyn cyfarfod ffurfiol y cyngor perthnasol, er mwyn ceisio dod â'r Cyngor yn ôl at ei gilydd ac ailganolbwyntio ar ei brif flaenoriaethau ac amcanion.

**Ymgysylltu** – Mae hyn wedi golygu bod Aelodau wedi gorfod cydnabod y materion y mae'r Cyngor yn eu hwynebu a bod yn fodlon rhoi unrhyw wahaniaethau personol a allai fod wedi cael effaith ar y Cyngor yn yr wythnosau/misoedd blaenorol, o'r neilltu er mwyn symud ymlaen yn gadarnhaol. Er bod angen i Aelodau fod yn gyfrifol am gymryd y camau hynny, mae cyfarfodydd o'r fath wedi helpu i newid ymddygiad mewn cyfarfodydd ac y tu allan iddyn nhw, ac i sylweddoli y dylid rhoi gwahaniaethau personol o'r neilltu, gan arwain at gyfle i ddechrau o'r newydd a Chyngor Tref/Cymuned mwy effeithiol ac effeithlon.

**Gweithio mewn partneriaeth –** Mae rhoi ymreolaeth i Gynghorau Tref a Chymuned er mwyn iddyn nhw gymryd camau gweithredu yn y lle cyntaf yn gam pwysig mewn unrhyw broses ddatrys. Fodd bynnag, dylai Cynghorau Tref a Chymuned wybod y gall y Cyngor, lle bydd angen, fod yn bartner cadarnhaol i helpu gydag unrhyw ddatrysiad.

**Cylch Gorchwyl – Fforwm Ymgysylltu'r Siarter ar y Cyd**

**Aelodau –** Clercod Cynghorau Tref a Chymuned RhCT; Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Swyddog Cyswllt Cymunedol.

**Cadeirydd** – Mae gofyn i'r Fforwm benodi Cadeirydd bob blwyddyn. Rhaid i'r Cadeirydd fod yn Glerc Cyngor Tref neu Gymuned. Er y bydd y broses benodi'n cael ei chynnal bob blwyddyn, does dim i atal y cadeirydd rhag cael ei ailbenodi.

**Amcanion:** Cynnal cyfarfodydd rhithwir chwarterol rhwng Clercod Cynghorau Tref a Chymuned Rhondda Cynon Taf a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Cyswllt Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf er mwyn cyflawni'r canlynol:

- Rhannu'r newyddion diweddaraf gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Er enghraifft, manylion am benderfyniadau'r Cyngor / Ymgynghoriadau Agored / materion eraill o ddiddordeb i Gynghorau Tref a Chymunedau sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor)
- Diweddariadau gan y Cynghorau Tref a Chymuned (tebyg i'r uchod)
- Nodi sefyllfaoedd o ran y gyllideb a chyllid
- Rhannu enghreifftiau o arfer da
- Datrys Problemau – trafod problemau sydd wedi codi a'u datrys
- Trafod cyfleoedd hyfforddi
- Unrhyw faterion eraill a allai fod o bwys i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf neu'r Cynghorau Tref a Chymuned.
- Adolygu Cynllun Cyflawni'r Siarter a'i Ddiweddaru
- Estyn Gwahoddiadau – derbyn cyflwyniadau/anerchiadau gan Uwch Swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf lle bo hynny'n briodol.
- Un Llais Cymru – Gwahodd Un Llais Cymru i gyfarfodydd le bo hynny'n briodol.

**Rheoli'r Cyfarfodydd** Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein drwy Zoom. Bydd agenda'r cyfarfodydd yn cael eu dosbarthu ymlaen llaw. Gofynnir i bob Aelod anfon eitemau i'w hystyried ymlaen llaw er mwyn sicrhau nad yw'r cyfarfod yn cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Bydd Cadeirydd y grŵp yn cymeradwyo'r agenda cyn ei chyhoeddi. Ni fydd y cyfarfodydd yn cael eu recordio nac ar gael i'r cyhoedd er mwyn caniatáu sgyrsiau agored a diogel. Bydd pwyntiau gweithredu yn cael eu nodi er mwyn sicrhau bod y trafodaethau'n dwyn ffrwyth.

**Adrodd yn Ôl** – Bob blwyddyn, bydd Cadeirydd y fforwm yn cyflwyno adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor Cyd-gysylltu â'r Gymuned sy'n amlinellu gwaith y fforwm dros flwyddyn y Cyngor.

***

**Cylch Gorchwyl – Pwyllgor Cynghorau Tref a Chymuned RhCT**

**Aelodau** - Cadeiryddion / Arweinwyr Cynghorau Tref/Cymuned (Aelod Etholedig) ac Uwch Swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Aelodau 'deublyg' RhCT (Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol a Chymuned/Tref); Aelod Perthnasol o Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

**Dirprwyon -** Yn absenoldeb unrhyw Gadeirydd (Aelod Etholedig) o'r Cynghorau Tref a Chymuned, caniateir Aelodau dirprwyol.

**Arsylwyr -** Anogir clercod y Cynghorau Tref a Chymuned i fynychu'r cyfarfodydd at ddibenion arsylwi.

**Amcanion** –

Cydweithio i roi nodau cyffredinol y Siarter Gymunedol ar y Cyd ar waith, a hynny er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau cydweithredol rhwng Cynghorau Tref a Chymuned. Bydd hyn o fudd i drigolion Rhondda Cynon Taf ac ymwelwyr yn y pen draw.

- Atgyfnerthu gwaith partneriaeth a chyfleoedd i gydweithio
- Hyrwyddo democratiaeth leol
- Gwella ein Cymunedau a'n darpariaeth o ran gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd y Pwyllgor yn monitro'r cynnydd mewn perthynas â chyflawni'r Siarter drwy'r Cynllun Cyflawni y cytunwyd arno.

Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiad blynyddol gan Fforwm Ymgysylltu'r Siarter ar y Cyd, sy'n trafod y gwaith a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn y Cyngor sydd dan sylw.

**Rheoli Cyfarfodydd -** Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cynnull pryd bynnag y bydd y Cadeirydd o'r farn eu bod nhw'n briodol. Cynhelir o leiaf ddau gyfarfod y flwyddyn. Awgrymir trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor cyn pennu gosod Cyllideb Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Bydd y cyfarfodydd yn rhai hybrid, ac yn cael eu cynnal yn Ystafell Bwyllgor y Cyngor ym Mhencadlys y Cyngor a thrwy Zoom yn y lle cyntaf.  Pe bai unrhyw Gyngor Tref neu Gymuned yn dymuno cynnal cyfarfod, yna bydd angen rhoi trefniadau hybrid ar waith. Bydd y cyfarfod yn cydymffurfio â pholisi Cyfarfodydd Aml-leoliad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sydd i'w weld yma.

Bydd y cyfarfod yn gyhoeddus a bydd trefniadau'r cyfarfod a chynnwys perthnasol ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.  Anogir Cynghorau Tref a Chymuned i hyrwyddo'r cyfarfodydd ar eu cyfryngau cymdeithasol eu hunain.

**Pleidleisio -** Gan y bydd y Pwyllgor fel arfer yn ceisio gweithredu trwy gonsensws, gyda'r aelodau'n bartneriaid cyfartal sy'n rhoi gwrandawiad effeithiol i lais y dinesydd, ystyrir ei bod hi'n amhriodol sefydlu proses bleidleisio ffurfiol.

**Cworwm -** Rhaid cael o leiaf tri Chadeirydd (neu ddirprwyon) y Cynghorau Tref a Chymuned, a Chadeirydd y Pwyllgor (neu'r Cadeirydd dynodedig) er mwyn ffurfio cworwm.  Os nad oes cworwm yn bresennol ar unrhyw adeg, bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio a bydd yr eitemau busnes (neu'r eitemau sy'n weddill) yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf, gyda'r Cadeirydd yn cytuno ar amser a dyddiad y cyfarfod hwnnw.

**Eitemau'r Agenda** - Bydd aelodau'n cael rhybudd ymlaen llaw o ddyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd ac, o ran bod yn agored a thryloyw, byddan nhw'n cael eu gwahodd i gyfrannu at yr agenda o ran cyflawni swyddogaethau (materion gweithredol i'w codi drwy'r Swyddog Cyswllt a Chlercod y Cynghorau Tref/Cymuned priodol) ac i fod yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn cyfrannu at y drafodaeth.  Mae gan y Cadeirydd yr hawl i wrthod rhoi unrhyw eitemau ar yr agenda, os ystyrir ei fod yn amhriodol.

***

**Swyddog Cyswllt Cymunedol - Dyletswyddau**

- **Bydd dyletswyddau'r Swyddog Cyswllt** yn cynnwys (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

  - cyfathrebu (ar ffurf e-bost / galwadau ffôn) a phob Cyngor Cymuned a Thref yn rheolaidd er mwyn cael gwybod am unrhyw faterion / datblygiadau pwysig sydd ar droed

  - E-gylchlythyrau – llunio cylchlythyrau electronig rheolaidd sy'n rhoi cyngor, gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol.

  - Dosbarthu manylion strategaethau / polisïau / ymgynghoriadau pwysig sy'n cael eu llunio gan y Cyngor a allai effeithio ar y Cynghorau Tref neu Gymuned, neu fod o ddiddordeb iddyn nhw

  - Codi unrhyw faterion gyda swyddogion priodol y Cyngor ar ran y Cynghorau Tref a Chymuned.

  - Rhoi gwybod am unrhyw gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i Gynghorau Tref a Chymuned.

***